

At ddefnydd swyddfa yn unig				
	Dyddiad Anfon	Cyf. Derbyn	Dyddiad Dychwelyd	Canlyniad
Cyf. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:				
Dyddiad Derbyn y Ffurflen Las				
Dyddiad Cyflwyno Bathodyn				

Cais am Drwydded Gyrwr Hurio Preifat

ADNEWYDDU

CAIS NEWYDD

Ticiwch

1. MANYLION PERSONOL

Enw:	
Cyfeiriad:	
Dyddiad Geni:	Rhif Ffôn:
Cyfnod yn y cyfeiriad presennol:	
Cyfeiriad(au) blaenorol (os o gwbl) yn y 5 mlynedd diwethaf:	
E-Bost:	

2. HANES CYFLOGAETH (Y 5 mlynedd diwethaf)

Enw a Chyfeiriad y Cyflogwr	Natur y gyflogaeth	Cyfnod cyflogaeth		Rheswm dros adael
		O	Hyd	
Yn unol â Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau bod cyflogaeth yn cael ei chynnig i'r rhai sydd â'r hawl cyfreithiol i fyw a gweithio yn y DU yn unig				
A oes gennych ganiatâd i fyw yn gyfreithlon yn y DU? Bydd angen Prawf Dogfennol				Oes / Nac Oes
A oes gennych ganiatâd i weithio yn gyfreithlon yn y DU? Bydd angen Prawf Dogfennol				Oes / Nac Oes

3. PROFIAD GYRRU:

Hyd y cyfnod lle daliwyd trwydded yrru lawn: (Isafswm o 12 Mis)
Ydych chi wedi dal Trwydded Gyrwr Hurio Preifat neu Gerbyd Hacni o'r blaen Do / Naddo
Os ydych chi, darparwch y canlynol: Enw'r Awdurdod trwyddedu
Cyfnod dal Trwydded Hurio Preifat / Cerbyd Hacni:
Rhesymau dros ildio / ddi-ddymu'r Drwydded:
A wrthodwyd Trwydded Gyrwr Hurio Preifat neu Gerbyd Hacni i chi erioed o'r blaen Do / Naddo Os felly, nodwch y rheswm dros wrthod y drwydded honno:
Enw a chyfeiriad y Gweithredwr yr ydych yn bwriadu gyrru ar ei gyfer: Sylwch fod yn rhaid i'r Gweithredwr Hurio Preifat ddal trwydded gan CBS Wreccsam

4. TROSEDDAU - Cwblhewch yr adran hon yn llawn (os atebwch unrhyw gwestiwn yn gadarnhaol, rhowch fanylion yn y tabl isod neu ar bapur ar wahân).

Sylwch: Nid yw Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn berthnasol i yrwyr hurio preifat a cherbyd hacni. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid datgan UNRHYW gollfarnau neu rybuddiadau, p'un a ellid ystyried bod y rheiny fel arfer wedi darhod ai peidio. Dylech hefyd ddatgan pob rhybudd, cerydd, hysbysiad cosb benodedig a throsedd moduro.

A oes gennych unrhyw gollfarnau troseddol? Os oes, rhaid i chi roi manylion llawn eich holl gollfarnau yn y gofod isod, p'un a ydynt wedi darhod ai peidio	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>
Ydych chi erioed wedi cael rhybuddiad, rhybudd neu gerydd swyddogol gan yr heddlu am unrhyw reswm neu wedi derbyn hysbysiad cosb benodedig am unrhyw drosedd, gan gynnwys moduro? Os ydych chi, rhaid i chi roi'r manylion llawn isod.	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>
A oes gennych chi unrhyw faterion yn yr arfaeth, y mae ymchwiliad yn cael ei gynnal iddynt ar hyn o bryd, er enghraifft gan yr Heddlu neu gan asiantaeth gorfodi arall?	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>
A oes gennych unrhyw gollfarnau neu faterion yn yr arfaeth mewn unrhyw wlad arall?	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>

Yr wyf yn datgan yn ddifrifol ac yn ddiffuant (ticiwch 1 neu 2 fel bo'n briodol):

NAILL AI

1. Nad oes gennyf unrhyw gollfarnau, rhybuddiadau nac unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r heddlu i'w datgan ac nad wyf yn destun unrhyw erlyniadau yn yr arfaeth nac yn destun ymchwiliad am unrhyw fater arall.

NEU

2. Fy mod yn rhestru yma fanylion llawn yr holl gollfarnau, rhybuddiadau ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r heddlu yr wyf wedi'u derbyn. Yr wyf hefyd yn rhestru manylion llawn unrhyw droseddau yr wyf yn cael fy erlyn yn eu cylch neu unrhyw fater arall yr wyf yn destun ymchwiliad ar ei gyfer.

PWYSIG: O dan Adran 57(3) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, mae'n drosedd i unrhyw un wneud datganiad ffug neu hepgor unrhyw fanylion o bwys wrth ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol, boed hynny'n fwriadol neu oherwydd diofalwch.

Dyddiad	Math o Drosedd - h.y. Collfarn, rhybuddiad ac ati	Manylion y Drosedd neu'r Mater sydd yn yr Arfaeth	Cyfeiriad y Llys / yr Heddlu	Dedfryd / Cosb ac ati

5a) GWRTHLOFNOD

Mae angen gwrthlofnod ar gyfer pob cais am Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat newydd (yn hytrach na chais i adnewyddu trwydded gyfredol). Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen yn llawn, dylai unigolyn â statws proffesiynol neu statws tebyg lenwi a llofnodi'r adran hon. Bydd yr unigolyn wedi eich adnabod yn bersonol ers dwy flynedd o leiaf, ac yn ddinesydd y Gymanwlad neu'n ddinesydd Gwyddelig sy'n byw yn y DU. **Dylai gwrthlofnodwr derbyniod llofnodi eich cais. (Gweler y rhestr atodedig am gyfarwyddyd). Ni ddylai gwrthlofnodwyr fod wedi'u cyflogi yn y Busnes Hurio Preifat/Cerbyd Hacni.**

5b) NODIADAU I'R GWRTHLOFNODWR

Fel y sawl sy'n gwrthlofnodi'r cais hwn, dylech wirio a chadarnhau eich bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Adran 5a ar y ffurflen hon cyn llofnodi'r datganiad canlynol.

Tystiaf fy mod wedi adnabod yr ymgeisydd,..... ers dwy flynedd o leiaf, a hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, ni wn am unrhyw reswm pam na chaiff ef/hi Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat er mwyn cludo teithwyr drwy drefniant hurio a thalu.

Llofnod: Dyddiad

Enw mewn Llythrennau Bras:Galwedigaeth neu Swydd

Cyfeiriad cyswllt:

Rhif Ffôn Cyswllt.....

DS. Bydd methu â rhoi cyfeiriad cyswllt yn oedi'r cais.

Sicrhewch eich bod wedi llenwi pob rhan o'r ffurflen a'ch bod yn gallu cyflwyno'r holl ddogfennau sydd wedi rhestru. OS NA WNEWCH HYNFY, NI FYDD EICH CAIS YN CAEL EI DDERBYN

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn trin gwybodaeth o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn unol â gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR,) Polisi Preifatrwydd DBS ar gyfer Gwiriadau Safonol a Manwl, a Chodau Ymarfer y DBS. Gellir gweld copïau o ddogfennau y DBS yn y swyddfa drwyddedu neu gellir eu cael ar-lein;

<https://www.gov.uk/government/publications/dbs-privacy-policies>

Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn darllen a deall Polisi Preifatrwydd DBS ar gyfer Gwiriadau Safonol a Manwl.

Yr wyf yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred fod y wybodaeth a roddir uchod yn wir ac yn gywir.

Yr wyf wedi darllen a deall Amodau'r Drwydded. Yr wyf wedi darllen a deall Polisi Preifatrwydd DBS ar gyfer Gwiriadau Safonol a Manwl.

Llofnod (Ymgeisydd)

Dyddiad:

Os byddwch, yn fwriadol neu oherwydd diofalwch, yn gwneud datganiad ffug neu'n hepgor unrhyw wybodaeth o bwys o'r cais hwn, gallech fod yn cyflawni trosedd.

Mae'n bosib y bydd y wybodaeth a gasglwyd yn cael ei rhannu gydag adrannau neu sefydliadau eraill er mwyn i ni allu darparu gwasanaeth i chi. Mae rhagor o fanylion ar gael ar yr adran Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

Dylid gwneud pob sic yn daladwy i 'Cyngor Wrecsam'.

Dylid llenwi a dychwelyd y ffurflen hon, ynghyd â chopïau ardystiedig o'r dogfennau canlynol:

Trwydded Yrru – gyda ffurflen y DVLA “Cod Mynediad Unwaith” a D906 Ffurflen Caniatâd Hawl i Yrru

Tystysgrif Geni neu Basbort Cyfredol y DU

Prawf o Rhif Yswiriant Gwladol (Prawf Dogfennol h.y. Cerdyn Yswiriant Gwladol, P45 / P60 ac ati)

Prawf o gyfeiriad, e.e. bil cyfleustodau diweddar

Trwydded i Breswyllo yn y DU a Thrwydded i weithio yn y DU (os oes angen)

dros e-bost i taxiadmin@wrexham.gov.uk neu trwy'r post i'r Isadran Drwyddedu, Depo Cludiant Adran yr Amgylchedd, De Ffordd yr Abaty, Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam, LL13 9PW (01978) 729600.

GWRTHLOFNODWYR DERBYNIOL

- Cyfrifydd
- Clerc Erthyglog Cwmni Cyfyngedig
- Asiant Sicrhad Cwmni Cyfyngedig
- Swyddog Banc/Cymdeithas Adeiladu
- Bargyfreithiwr
- Cadeirydd/Cyfarwyddwr Cwmni Cyfyngedig
- Fferyllydd
- Ciropodydd
- Ymarferydd Gwyddor Gristnogol
- Comisiynydd llwon
- Cynghorydd: Lleol neu Sirol
- Gwas Sifil (parhaol)
- Deintydd
- Swyddog y Gwasanaeth Tân
- Trefnydd Angladdau
- Ynad Heddwch
- Ysgrifennydd Cyfreithiol (aelodau a chymrodyr Sefydliad yr Ysgrifenyddion Cyfreithiol)
- Swyddog Llywodraeth Leol
- Aelod Seneddol
- Swyddog o'r Llynges Fasnachol
- Gweinidog crefydd a gydnabyddir
- Nyrs (SRN ac SEN)
- Swyddog y lluoedd arfog (gweithredol neu wedi ymddeol)
- Optegydd
- Unigolyn ag Anrhydedd (ee OBE MBE ac ati)
- Unigolyn â chymhwyster cydnabyddedig (ee BSc, PhD ac ati)
- Swyddog Heddlu
- Swyddog Swyddfa'r Post
- Swyddog o Fyddin yr Iachawdwriaeth
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Cyfreithiwr
- Syrfëwr (Siartredig)
- Athro, Darlithydd
- Asiant Teithio (cymwysedig)
- Priswyr ac ocsynwyr (cymrodyr ac aelodau o'r gymdeithas gorfforedig)
- Swyddogion Gwarant a Phrif Is-swyddogion

Bydd yr uchod, p'un a ydynt yn gweithio neu wedi ymddeol, yn dderbyniol fel gwrthlofnodwyr. **Nid yw perthnasau na phartneriaid yn wrthlofnodwyr derbyniol.**

CYNGOR WRECSAM
CANLLAWIAU AR GYFER GYRWYR HURIO PREIFAT

1. Mae Cyngor Wrecsam wedi mabwysiadu 'Meini Prawf Addasrwydd i Yrwyr a Gweithredwyr'. Mae'r Pwyllgor Trwyddedu a/neu Swyddogion yn cyfeirio at y polisi hwn wrth benderfynu ar geisiadau am drwyddedau. I gael copi o'r polisi, cyfeiriwch at becyn cais 'Trwyddedau Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat/Cerbydau Hacni'.
2. Nod y polisi hwn yw gwarchod diogelwch y cyhoedd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn awyddus i sicrhau:
 - Bod person yn berson addas a phriodol;
 - Nad yw'r person yn fygythiad i'r cyhoedd;
 - Bod y cyhoedd yn cael eu diogelu rhag pobl anonest;
 - Bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu;
 - Bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu;
 - Bod y cyhoedd yn hyderus i ddefnyddio cerbydau trwyddedig.
3. Ni fwriedir i'r canllawiau hyn gael eu gweithredu'n llym. Os bydd amgylchiadau'n cyfiawnhau symud oddi wrth y canllawiau, bydd y Cyngor yn gweithredu'n unol â hynny a chaiff pob achos ei drin ar sail ei ffeithiau a'i rinweddau ei hun.
4. Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd ddarparu'r manylion canlynol ar ei ffurflen gais:-
 - (i) Enw a chyfeiriad, a'r cyfnod preswyllo yn y cyfeiriad presennol.
 - (ii) Ers sawl blwyddyn y mae wedi dal trwydded yrru lawn.
 - (iii) Manylion yr holl gollfarnau blaenorol a gofnodwyd yn ei erbyn (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974). Fodd bynnag, yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002, nodir yn benodol fod Gyrrwr Hurio Preifat a Cherbyd Hacni yn eithriadau i'r Ddeddf, yn yr ystyr na chaiff collfarnau fyth eu hystyried yn gollfarnau sydd wedi darfod. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r ymgeisydd nodi'r holl gollfarnau a gafwyd yn ei erbyn ar y ffurflen gais. Bydd yr wybodaeth a roddir yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni fydd ond yn cael ei hystyried mewn perthynas â'r cais. Mae'r gyfraith yn rhoi pwerau i'r awdurdod trwyddedu holi'r heddlu ynghylch bodolaeth a chynnwys unrhyw gofnod troseddol a gedwir yn enw'r ymgeisydd. Cedwir gwybodaeth a dderbynnir gan yr heddlu'n gwbl gyfrinachol tra bo'r broses drwyddedu'n mynd rhagddi, ac ni chedwir y wybodaeth honno am gyfnod hirach nag sydd angen. Ni fydd datgelu cofnod troseddol nac unrhyw wybodaeth arall yn atal ymgeisydd rhag cael trwydded onid yw'r awdurdod o'r farn fod y gollfarn yn peri bod yr ymgeisydd yn anaddas.
 - (iv) Manylion llawn am brofiad gyrru.
 - (v) Manylion swydd bresennol neu'r swydd lawn amser ddiwethaf.
 - (vi) Enw a chyfeiriad y perchennog y mae'r ymgeisydd yn bwriadu gyrru ar ei gyfer (yn ogystal â hyn, bydd angen i'r Cyngor fod yn fodlon bod cerbyd hurio preifat trwyddedig yn bodoli i'w yrru gan yr ymgeisydd).
 - (vii) Enw a chyfeiriad gwrthlofnodwr sydd wedi adnabod yr ymgeisydd ers dwy flynedd o leiaf. Byddai unigolion o'r fath yn cynnwys cyflogwr, aelod o'r glerigiaeth, meddyg neu ynad heddwch. Ni dderbynnir gwrthlofnod gan berthnasau, cymdogion nac unigolion sy'n ymwneud â'r fasnach hurio preifat neu gerbyd hacni.Os oes angen, efallai y bydd yn ofynnol i ymgeisydd ddarparu gwybodaeth bellach am unrhyw un o'r uchod.
5. Cyn rhoi trwydded i ymgeisydd, bydd angen i'r ymgeisydd hefyd gyflwyno Tystysgrif Feddygol Grŵp 2 wedi'i llofnodi gan ei Feddyg yn tystio ei fod yn addas i yrru cerbyd hurio preifat.
6. Cyflwynir Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat am flwyddyn fel arfer, ond fe'i cyflwynir am gyfnod byrrach os teimlir y gallai fod angen i ymgeisydd ei brofi ei hun cyn cael trwydded am flwyddyn gyfan.
7. Wrth ystyried a yw ymgeisydd yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr hurio preifat, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried gallu'r ymgeisydd i ddeall a chydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â thrwydded gyrrwr hurio preifat, y ceir copi ohonynt yn yr Atodlen i'r ddogfen hon.

ATODLEN - AMODAU'R DRWYDDED

- 1 Dylai'r gyrrwr:
 - a) wisgo bathodyn adnabod Gyrrwr Hurio Preifat a gyhoeddir yn unol ag Adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 mewn man amlwg a gweladwy bob amser.
 - b) arddangos cerdyn adnabod a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol yn y Cerbyd Hurio Preifat, mewn man lle gall teithwyr ei weld yn rhwydd.
 - c) sicrhau, mewn perthynas â'r Cerbyd, fod polisi yswiriant neu sicrwydd o'r fath mewn grym sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1972, a bod ganddo yswiriant digonol i yrru'r Cerbyd Hurio Preifat.
 - d) ymddwyn mewn ffordd gwrtais a threfnus bob amser a pheidio â defnyddio iaith dramgwyddus nac ymddwyn felly;
 - e) bod yn lân a pharchus o ran gwisg ac ymddygiad wrth gario teithwyr bob amser.
 - f) rhoi unrhyw gymorth rhesymol i deithwyr gyda'u bagiau;
 - g) peidio, ar unrhyw achlysur wrth gludo teithwyr sy'n talu, ysmegu, yfed na bwyta yn y Cerbyd;
 - h) peidio, heb gydsyniad penodol y sawl sy'n hurio'r Cerbyd, chwarae unrhyw radio neu offer sy'n ail-greu sain, nac unrhyw offeryn ac eithrio er mwyn gyrru neu dderbyn negeseuon gan Weithredwr y Cerbyd;
 - i) ar unrhyw bryd, beidio ag achosi neu ganiatáu i'r sŵn o unrhyw radio, neu unrhyw gyfarpar a grybwyllwyd yn flaenorol, yn y Cerbyd y mae'n ei yrru, achosi niwsans neu aflonydd ar unrhyw un p'un a yw y tu mewn i'r Cerbyd neu'r tu allan iddo;
 - j) peidio defnyddio ffôn symudol ar unrhyw bryd wrth yrru Cerbyd
- 2 Ni chaiff y Gyrrwr:-
 - a) gludo nifer fwy o deithwyr na'r hyn a ragnodwyd ar y Drwydded Hurio Preifat a gyhoeddwyd ar gyfer y Cerbyd hwnnw, na chaniatáu i hynny ddigwydd;
 - b) heb gydsyniad y sawl sy'n hurio'r Cerbyd, gludo unrhyw un arall yn y Cerbyd hwnnw, neu ganiatáu i hynny ddigwydd.
- 3 Ar ôl terfynu unrhyw drefniant i hurio Cerbyd a yrrir ganddo, dylai'r Gyrrwr wirio'r Cerbyd er mwyn canfod a oes unrhyw eiddo ynddo a allai fod wedi cael ei adael ar ddamwain. Dylid cludo unrhyw eiddo a ganfyddir gan y Gyrrwr neu a gyflwynir iddo, cyn gynted ag y bo modd, ac o fewn 24 awr (os na chaiff ei hawlio ynghynt gan y perchennog neu ar ei ran) i Orsaf Heddlu yn yr ardal a'i adael ym meddiant y swyddog sy'n gyfrifol ar ôl cael derbynneb amdano.
- 4 Os yw'r sawl sy'n hurio'r Cerbyd yn gofyn am un, dylai'r Gyrrwr ddarparu derbynneb ysgrifenedig am y swm a dalwyd.
- 5
 - a) Ni chaiff y Gyrrwr, wrth weithredu'n unol â thrwydded Gyrrwr Hurio Preifat, gludo unrhyw anifail y mae ef ei hun neu Weithredwr y Cerbyd yn berchen neu'n gyfrifol amdano.
 - b) Ceir cludo unrhyw anifail y mae'r sawl sy'n hurio'r Cerbyd yn berchen arno/gyfrifol amdano, yn ôl disgrisiwn y Gyrrwr, ar yr amod bod yr anifail yn cael ei gario yng nghefn y Cerbyd a'i ddal yn ôl fel na all amharu ar allu'r gyrrwr i yrru'r Cerbyd yn ddiogel.
 - c) Ni chaiff y Gyrrwr, heb rybudd dilys o eithriad wedi'i gyhoeddi o dan adran 37 o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled 1995, wrthod cludo ci tywys, ci clywed neu gi gymorth arall.
- 6 Ar ôl derbyn contract i hurio Cerbyd Hurio Preifat, dylai'r Gyrrwr fod yn bresennol yn brydlon yn y fan ac ar yr amser a gytunwyd i godi'r sawl sy'n hurio, oni chaiff ei oedi neu ei atal rhag gwneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.
- 7 Wrth yrru Cerbyd Hurio Preifat, dylai'r gyrrwr ar bob achlysur gario copi o'r amodau hyn yn ei feddiant a darparu'r copi hwnnw i'w archwilio gan y sawl sy'n llogi neu unrhyw deithiwr, neu gan Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl ar gais.
- 8 Os bydd y Gyrrwr yn cael caniatâd neu'n cael ei gyflogi i yrru Cerbyd nad yw'n berchennog arno, cyn dechrau gyrru'r cerbyd hwnnw, dylai gyflwyno ei Drwydded Yrru Hurio Preifat i'w chadw gan y Perchennog hyd nes y bo'r caniatâd hwnnw, neu'r gyflogaeth honno i yrru'r Cerbyd neu unrhyw Gerbyd arall sy'n eiddo i'r Perchennog, ddod i ben.
- 9 Os bydd mesurydd wedi'i osod ar Gerbyd i gofnodi pris y daith, ni chaiff y Gyrrwr achosi i'r pris a ddangosir arno gael ei ganslo neu ei guddio hyd nes y bo'r sawl sy'n hurio wedi cael cyfle rhesymol i'w archwilio ac wedi talu'r pris hwnnw.
- 10 Ni chaiff y Gyrrwr:-
 - a) fynnu tâl sy'n fwy na'r swm a gytunwyd yn flaenorol am hurio rhwng y sawl sy'n hurio a'r Gweithredwr, ar yr amod nad yw'r sawl sy'n hurio am newid cyrchfan y dyfynbris, na

- b) gofyn i'r sawl sy'n hurio am dâl sy'n fwy na'r tâl a ddangosir ar y mesurydd, os oes mesurydd i gofnodi pris teithiau wedi'i osod yn y Cerbyd ac na chafwyd unrhyw gytundeb blaenorol ynglŷn â phris y daith.
- 11 Dylai'r Gyrrwr hysbysu'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio yn ysgrifenedig os ceir unrhyw newid i'w gyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded, cyn pen saith diwrnod ar ôl i'r newid hwnnw ddigwydd.
- 12 Cyn pen saith diwrnod, dylai'r Gyrrwr ddatgelu yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fanylion unrhyw gollfarnau yn ei erbyn (gan gynnwys rhybuddiadau a hysbysiadau cosb benodedig yn gysylltiedig â thramgwyddau traffig).
- 13 Pan fydd ei drwydded yn dod i ben, yn cael ei diddymu neu ei hatal, dylai'r Gyrrwr ddychwelyd y bathodyn a gyflwynwyd iddo i'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio ar unwaith.
- 14 Dylai'r Gyrrwr hysbysu'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, am unrhyw anabledd neu nam a allai effeithio ar ei allu i yrru, ac ni chaiff yrru cerbyd tra bo'r anabledd neu'r nam hwnnw yn effeithio arno, neu tra bo iechyd y Gyrrwr yn peri iddo fod yn anghymwys.
- 15 Ni ddylai'r Gyrrwr ganu ei gorn y tu allan i unrhyw eiddo lle mae wedi'i anfon i godi teithiwr, beth bynnag fo'r amser.
- 16 Dylai'r Gyrrwr hysbysu'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio am unrhyw newid o ran Gweithredwr yn ystod cyfnod y drwydded, cyn pen saith diwrnod ar ôl i'r newid hwnnw ddigwydd.
- 17 Ar bob achlysur, dylai'r Gyrrwr gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, fel y bônt yn berthnasol i Yrrwyr, Cerbydau a Gweithredwyr Hurio Preifat a phob deddfwriaeth arall berthnasol sydd mewn grym ar y pryd.
- 18 Rhaid i yrrwr gwblhau'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu cymeradwy pan fydd angen gan y Gwasanaeth Trwyddedu.

GELLID YSTYRIED TORRI'R AMODAU HYN YN SAIL DROS ATAL, DIDDYMU NEU WRTHOD ADNEWYDDU'R DRWYDDED.

Hawl i Apelio

Os ydych yn anhapus ag unrhyw un o'r amodau sy'n gysylltiedig â'r drwydded hon, mae gennych hawl i apelio i Lys Ynadon cyn pen 21 diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r drwydded i chi.

(02/2017)